**Cyf: EUR-02-99 (min)**

**Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Hydref 1999 | |
| **Amser:** | 9.30am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1 | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Alun Michael, Cadeirydd | Llafur: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Mick Bates | Democrat Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn |
| | Nicholas Bourne | Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Val Feld | Llafur: Dwyrain Abertawe |
| | Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin a De Caerfyrddin |
| | Elin Jones | Plaid Cymru: Ceredigion |
| | Jonathon Morgan | Ceidwadwr: De Cymru Canolog |
| | Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| | Alun Pugh | Llafur: Gorllewin Clwyd |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Caerfyrddin a Dwyrain Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: De Cymru Dwyreiniol |
| | | |
| | Jill Evans | ASE |
| | Eluned Morgan | ASE |
| | Eurig Wyn | ASE |
| | George Wright | Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd (ECOSOC), Cadeirydd Bwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| | Yr Athro Rose D’Sa | ECOSOC |
| | Y Cynghorydd Brian Smith | Pwyllgor y Rhanbarthau |
| | Joseph Gallacher | Cyfarwyddwr Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| | **Swyddogion** | |
| | Hugh Rawlings | Pennaeth yr Adran Materion Ewropeaidd |
| | Caroline Turner | Adran Materion Ewropeaidd |
| | | |
| | Andrew George | Clerc |

Julie Bragg Dirprwy Glerc

Ymddiheuriadau: Linda Matthews, Pwyllgor y Rhanbarthau

Glenys Kinnock a Jonathan Evans, Aelodau Seneddol Ewropeaidd

**Eitem Agenda 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb, yn enwedig y rhai a ddaethai’n aelodau o’r Pwyllgor ers y cyfarfod agoriadol ynghyd â chynrychiolwyr Cymreig sefydliadau Ewropeaidd a Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Esboniodd mai cynrychioli Cymru a buddiannau Cymru yn Ewrop oedd thema gyffredinol y cyfarfod.

**Eitem Agenda 2: Rôl Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-02-99(p.1W)

2.1 Nododd y Pwyllgor y papur gwybodaeth y gofynnwyd amdano yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor am rôl Cynrychiolaeth y DU.

**Eitem Agenda 3: Cynrychioli’r Cynulliad ym Mrwsel**

**(i) Papur:** EUR-02-99 (p.2W)

**(ii) Cyflwyniad gan George Wright a Joseph Gallacher**

3.1 Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn rhoi cyfle gwerthfawr i’r Pwyllgor ystyried y modd y cynrychiolir y Cynulliad ym Mrwsel. Am fod gan y Cynulliad rôl wahanol i’r Swyddfa Gymreig gynt, gallai fanteisio ar y cyfle i gydweithio â Chanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) yn ogystal â Chynrychiolaeth y DU.

3.2 Amlinellodd y cyflwyniad gwmpas gweithgareddau Canolfan Ewropeaidd Cymru a oedd yn cynnwys helpu i fonitro polisïau, eiriol a lobïo, rhwydweithio, cynnal ymweliadau astudio a darparu gwybodaeth a chynnal seminarau yn ôl yng Nghymru. Gallai hefyd gydweithio â’r Undeb Ewropeaidd, y Senedd Ewropeaidd a’r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd (ECOSOC). Ond ni allai gydweithio â Chyngor y Gweinidogion am fod yn rhaid i Gymru wneud hynny fel rhan o’r DU drwy Gynrychiolaeth y DU. Teimlai WEC ei bod yn hanfodol i Gymru gael ei gweld ym Mrwsel nid yn unig fel rhan o’r DU ond fel endyd ar wahân hefyd. Gallai WEC ychwanegu at werth y presenoldeb hwn drwy roi cyfle i’r Cynulliad fanteisio ar y cysylltiadau a’r ddelwedd a feithrinodd hyd yma. Drwy ymuno â’r 76 aelod arall o WEC, gallai’r Cynulliad helpu i hyrwyddo ffordd Cymru o weithredu fel tîm. Yn wir, bydd WEC yn symud i adeilad newydd cyn bo hir a brynwyd yn y gobaith y câi rôl y Ganolfan ei datblygu o dan y Cynulliad.

3.3 Wedi cydnabod bod presenoldeb Cymreig ym Mrwsel yn gwbl hanfodol, trôdd y drafodaeth at sut orau i ymdrin â’r mater. Roedd teimlad bod rhywbeth i’w ddysgu o bosibl oddi wrth brofiadau rhanbarthau eraill o datblygu presenoldeb ym Mrwsel, ond byddai’n rhaid i Gymru fynd ati yn ei ffordd arbennig ei hunan er mwyn gweddu i’w hamgylchiadau ei hunan. Cydnabuwyd bod angen dod i gytundeb â Chynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr Undeb Ewropeaidd (Cynrychiolaeth y DU) er mwyn sicrhau statws diplomyddol a’r cyfle i fanteisio ar wybodaeth Llywodraeth y DU. Awgrymwyd y dylai’r Cynulliad annog gweision sifil i ymgeisio am swyddi prif lif yng Nghynrychiolaeth y DU yn ogystal â chael ei gynrychioli fel endyd ar wahân.

3.4 Roedd aelodau o blaid yr egwyddor o estyn cynrychiolaeth i gynnwys nid yn unig cynrychiolaeth ffurfiol drwy Gynrychiolaeth y DU ond hefyd aelodaeth o WEC. Gofynnodd y Cadeirydd am i bapur mwy manwl ynghylch cynrychiolaeth y Cynulliad gael ei baratoi erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Roedd George Wright hefyd wedi cynnig darparu papur ar leoliad newydd WEC.

**Eitem Agenda 4: Arolwg Polisi - Strategaeth i asesu effaith Polisïau’r Undeb Ewropeaidd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Papur: EUR-02-99 (p.3W)**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur 3, a gynigiodd broses i alluogi Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried yn llawn yr agwedd Ewropeaidd ar eu rhaglenni gwaith. Byddai hyn yn helpu i bwysleisio rôl gyd-drefnu’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd a’i

allu i gefnogi gwaith y Pwyllgorau Pwnc.

4.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y ffordd orau i gynghori Cadeiryddion ynglþn ag asesu trefn flaenoriaeth pynciau Ewropeaidd a’r amser y dylid ei neilltuo ar gyfer eu trin. Nodwyd y câi deddfwriaeth Ewropeaidd ei gweithredu yn y Cynulliad Cenedlaethol yn yr un ffordd ag unrhyw reolau eraill y gwelai’r Cynulliad yn dda eu gwneud. Cydnabuwyd nad oedd rhestr y meysydd polisi ar gyfer Pwyllgorau Pwnc unigol yn gyflawn, ac y câi ei gwella dros gyfnod o amser. Wrth bwysleisio’r rôl a welai ar gyfer Aelodau Seneddol Ewropeaidd yn y Pwyllgor, cynigiodd Jill Evans y dylai Aelodau Seneddol Ewropeaidd lunio eu rhestr eu hunain fel y byddai modd croesgyfeirio’r ddau bapur. Cytunodd aelodau y gellid caniatáu i hyn fod yn rhan o’r broses.

**Eitem Agenda 5: Adroddiad ar y Concordat rhwng Cabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y DU ynglþn â Chyd-drefnu Pynciau Polisi’r Undeb Ewropeaidd**
**Papur: EUR-02-99 (p.4W)**

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur hwn a gyhoeddwyd ar 1 Hydref. Mewn ateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cadeirydd fod modd ystyried safbwyntiau gwleidyddol amrywiol wrth ddatblygu safle cyd-drafod ar gyfer y DU. Byddai’r trefniadau’n berthnasol i Ogledd Iwerddon lle nad oes cynrychiolwyr Plaid Lafur ac yng Nghlymblaid yr Alban.

**Eitem Agenda 6: Adroddiad ar Gynhadledd INTERREG, Dulyn, 24 Medi**

6.1 Rhodri Morgan a roddodd hanes y Gynhadledd hon a ddangosodd fod y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yn ystod prosiect INTERREG yn llwyddiannus iawn o safbwynt y ddwy wlad. Roedd y prosiect bellach yn cael ei ddatblygu a’i droi’n ail raglen INTERREG Cymru/Iwerddon. Byddai’r pwyslais ychydig yn wahanol yn yr ail raglen hon am fod Cymru ond nid Iwerddon bellach yn derbyn nawdd Amcan 1 oddi wrth yr UE. Golygai hynny fod cyfle i gyflawni mwy yng Nghymru. Roedd yn bwysig cofio bod gan Gymru bellach ddwy brif ffynhonnell nawdd i’w hystyried ar gyfer prosiectau sylweddol sef INTERREG ac Amcan 1.

**Eitem Agenda 7: Rhaglen ar gyfer Fforwm Ewropeaidd Cymru, 22 Hydref**
**Papur: EUR-02-99 (p.5W)**

7.1 Trafodwyd y rhaglen ar gyfer Fforwm Ewropeaidd Cymru cyntaf, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf. Awgrymwyd y dylai rhestr y gwahoddedigion gynnwys mwy o ‘ymarferwyr’ cyffredin a allai roi barn ddefnyddiol ar eu profiadau uniongyrchol a dywedodd y Cadeirydd y gellid newid y rhestr honno er mwyn adlewyrchu’r pwnc o dan drafodaeth pe ystyrid bod y Fforwm yn werth ei gadw. Cytunwyd, pe cynhelid cyfarfodydd mwy thematig yn y dyfodol, y byddai modd i’r Fforwm archwilio’r prif themâu’n fwy manwl ac i swyddogion dargedu gwahoddedigion yng ngoleuni hynny.

7.2 Cytunwyd i gynnal Fforwm arall yn Ebrill ar themâu Arian Sengl Ewrop ac Estyn yr UE i Ddwyrain Ewrop. Gofynnwyd i swyddogion baratoi rhaglen ddrafft i’w hystyried yngnghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Penderfynwyd ystyried dyfodol tymor hir y Fforwm yng ngoleuni’r ymateb a gafwyd i’r cyfarfod cyntaf.

**Eitem Agenda 8: Drafft blaenraglen waith 12 mis ar gyfer y Pwyllgor Ewropeaidd**
**Papur: EUR-02-99 (p.6W)**

8.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur hwn y bwriadwyd iddo sicrhau bod pynciau strategol a effeithiai ar y berthynas rhwng Cymru a‘r Undeb Ewropeaidd yn cael eu trin mewn ffordd drefnus. Y Pwyllgorau Pwnc a fyddai’n gyfrifol am drin unrhyw bynciau polisi manwl.

8.2 Awgrymwyd y gallai’r rhaglen gael cwmpas ehangach a thrafod unrhyw sylwadau buddiol a oedd gan Gymru i’w rhannu ag Ewrop, ynglþn â’r broses ddatganoli er enghraifft (gan gynnwys rhan menywod yn y broses benderfynu). Teimlai eraill y dylai’r rhaglen hefyd ystyried goblygiadau’r Gynhadledd Gyd-lywodraethol ar Gymru a oedd ar fin cael ei chynnal. Gofynnwyd i swyddogion ystyried y sylwadau hyn wrth ddychwelyd at y Rhaglen.

**Eitem Agenda 9: Swyddfa Atodol y Senedd Ewropeaidd yng Nghymru**

9.1 Gwahoddodd Jill Evans y Pwyllgor i gefnogi ei chynnig y dylai’r Senedd Ewropeaidd sefydlu swyddfa yng Nghymru fel y deuai pobl i wybod a deall mwy am rôl y Senedd a’i haelodau. Cafodd swyddfa o’r fath ei sefydlu eisoes yng Nghaeredin ac yr oedd

Cymru fel petai’n ateb y meini prawf ar gyfer dewis safleoedd i swyddfeydd fel y rhain.

9.2 Cytunodd aelodau y dylai swyddogion archwilio’r syniad yn fwy manwl ac adrodd ar y canlyniadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Eitem Agenda 10: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: EUR-01-99 (minW)**

10.1 Cytunwyd i dderbyn cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

10.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.00.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**